| | |
|---|---|
| CYFARFOD | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| DYDDIAD | 6ed Chwefror 2025 |
| TEITL | ADRODDIAD ARCHWILIAD ARBENNIG - GOFAL CARTREF |
| AWDUR | Aled Davies - Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| AELOD CABINET | Y Cynghorydd Dilwyn Morgan |

## 1. Cyflwyniad

### Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu

Cyflwynwyd adroddiad ar Archwiliad Arbennig Gofal Cartref a wnaed gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol i'r Pwyllgor gynhaliwyd ar 28ain Tachwedd.

Yn yr adroddiad nodwyd bod model comisiynu gofal cartref yn un uchelgeisiol a bod heriau i'w weithredu. Canfuwyd nad oedd rhai prosesau, y defnydd a rheolaeth o ddata, a rheolaeth/monitro cyllidol yn effeithiol a bod y materion yma angen sylw a gweithrediad buan. Bu i Archwilio Mewnol adrodd bod elfen o ail-strwythuro'r model wedi ei roi mewn lle a bod Grŵp Prosiect wedi ei sefydlu dan arweiniad Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant i weithredu rhaglen waith sydd wedi ei llunio i gyfarch y gwendidau a blaenoriaethu'r gwaith. Nodwyd bod Archwilio Mewnol yn derbyn gwahoddiad i fynychu'r Grŵp Prosiect.

Penderfynwyd i dderbyn cynnwys yr adroddiad a nodi'r wybodaeth. Gofynnwyd hefyd am adroddiad/diweddariad pellach gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant i egluro camau sydd ar y gweill i ymateb i'r materion godwyd ac i sicrhau bod y sefyllfa'n gwella. Mynegwyd dymuniad i gael mewnbwn y Prif Weithredwr i'r adroddiad.

Pwysleisir eto nad oedd yr archwiliad wnaed gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cwmpasu adolygiad o'r gofal gaiff ei ddarparu.

### Pwyllgor Craffu Gofal

Pan gyflwynwyd yr adroddiad am sefydlu'r drefn newydd o gomisiynu gofal cartref, gwnaed ymrwymiad i adrodd ar y drefn ymhen tua blwyddyn o'i sefydlu i gael asesu beth sydd wedi gweithio ac i adnabod materion i'w gwella. Cyflwynwyd yr adroddiad yn cyfarch hyn i gyfarfod y Pwyllgor Craffu Gofal ar 26ain Medi 2024 i gefnogi awydd aelodau'r Pwyllgor i bwyso a mesur effeithiolrwydd y ddarpariaeth gofal cartref ar draws y sir yn enwedig o ran cynnal a gwella gwasanaethau i drigolion.

Prif neges yr adroddiad hwn oedd bod y Cyngor wedi mabwysiadu model gofal cartref newydd ac uchelgeisiol sy'n cyd-fynd â'r egwyddorion a'r safonau comisiynu gofal cenedlaethol. Nodwyd bod llawer o lwyddiannau i'w dathlu, nifer o ardaloedd lle nad oes prin unrhyw restr aros am ofal a bod potensial mawr i wella ansawdd bywyd trigolion sydd angen gofal a staff trwy'r model newydd. Serch hynny, pwysleiswyd hefyd na ellid anwybyddu'r ffaith fod anawsterau yn bodoli yn rhai ardaloedd o'r Sir, a bod yr

heriau lawn mor niferus â'r llwyddiannau. Nodwyd bod gwaith mawr o flaen y Grŵp Prosiect Gofal Cartref, a bod angen rhoi blaenoriaeth ac adnodd digonol i'r gwaith hwnnw.

Cyfeirir yn yr adroddiad bod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ymgymryd ag archwiliad arbennig i drefniadau comisiynu gofal cartref preifat fyddai hefyd yn bwydo mewn ac yn dylanwadu ar flaenoriaethau gwaith y Grŵp Prosiect Gofal Cartref.

**2. Cyd-destun – Y model newydd**

Mae newidiadau wedi eu gwneud i'r ffordd mae'r Cyngor yn darparu gofal cartref gyda'r Cyngor yn darparu gwasanaethau mewn rhai ardaloedd ac yn comisiynu eraill i ddarparu gwasanaeth mewn ardaloedd eraill. Mae'r gwaith wedi parhau i geisio sicrhau fod ffyrdd newydd o weithio yn datblygu ar draws y Sir i gyd-fynd â'r disgwyliadau cenedlaethol a'r egwyddorion canlynol:

- Gwell telerau a threfniadau gwaith i staff
- Mwy o hyblygrwydd i drigolion a ffocws mwy eglur ar be sy'n bwysig iddyn nhw
- Cydweithio rhwng darparwyr a staff iechyd a gofal yn y gymuned, er mwyn cynnig gwasanaethau sydd wedi'u cydlynu'n well a gwneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau prin
- Manteisio ar gryfderau cymunedau lleol i atgyfnerthu'r gofal sydd ar gael a gwella ansawdd byw pobl.

Mae gennym restr aros am ofal cartref, ond rydym yn hyderus fod gweithio tuag at y model newydd yn un o'r ffactorau sydd wedi cyfrannu at ei lleihau dros y 12-18 mis diwethaf. Pan gyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor Craffu yn mis Medi roedd data'n dangos bod 8,800 awr yr wythnos o ofal cartref yn cael ei ddarparu ledled y Sir, ond bod 920 awr ychwanegol na ellir ei ddiwallu. Roedd hyn golygu fod 126 o bobl ar restr aros am becynnau gofal cartref newydd neu oriau ychwanegol yn gysylltiedig a pecynnau gofal oedd eisoes yn bodoli. Erbyn amser paratoi yr adroddiad yma, rydym yn parhau i ddarparu tua 8,800 awr o ofal cartref yr wythnos gyda 625 o oriau na ellir eu darparu. Mae yna 79 o bobl ar y rhestr aros gyda 65 ohonynt yn aros am becynnau newydd. Yn amlwg, er y symudiad cadarnhaol, rhaid cydnabod bod y sefyllfa'n parhau'n annerbyniol. Gellir cadarnhau bod ymdrechion yn parhau i gymryd camau megis:

- Cefnogi pobl sy'n asesu am ofal i ystyried holl gryfderau'r unigolyn a'r gymuned a pheidio comisiynu gofal pan nad hwnnw ydy'r datrysiad gorau
- Cydweithio â phartneriaid mewn cymunedau i ddatblygu hybiau cymunedol a darpariaethau cymunedol addas i gyfarch anghenion pobl
- Mireinio prosesau gwaith ac ansawdd trafodaethau lleol er mwyn sicrhau fod adnoddau staff yn cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon bosib.

Roedd yr adroddiad gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu Gofal yn cyflwyno gwybodaeth yn ymateb i gwestiynau penodol aelodau'r pwyllgor:-

- Ydy'r ffordd bresennol o ddarparu gofal cartref yn gweithio?
- Beth yw'r llwyddiannau a'r heriau?
- Oes problemau mewn rhai ardaloedd?
- Os oes problemau a oes cynlluniau i gyfathrebu gyda/diweddaru aelodau lleol o'r sefyllfaoedd, yn arbennig rhai sy'n arwain at flocio gwlâu mewn ysbytai?

Nid yw'r adroddiad hwn am ail adrodd y wybodaeth gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu Gofal yn Medi 2024, ond anogir aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i ddarllen yr adroddiad hwnnw gan ei fod yn ddefnyddiol i egluro beth yn union geisir ei gyflawni a lle 'rydym wedi ei gyrraedd hyd yma.

**Canfyddiadau'r Adroddiad Archwilio Mewnol**

Crynhowyd canfyddiadau'r adroddiad fel a ganlyn:-

- Bod rheolaeth gyllidebol annigonol ar ddarpariaeth gofal cartref preifat.
- Bod diffygion sylweddol ar reolaeth weithredol ar gyfer comisiynu gofal cartref.
- Er bod log risgiau wedi ei sefydlu, nid oedd cofnod clir bod y ddogfen yn cael ei chadw'n "fyw". Mae'r Adran bellach yn defnyddio byrddau Trello ar gyfer rheolaeth prosiect ond ni welwyd tystiolaeth i gadarnhau y cynnwys.
- Ni ellir datgan sicrwydd bod gan yr Adran ddata rheolaethol effeithiol ar gyfer rheoli a chomisiynu gofal cartref preifat a hynny oherwydd gorddibyniaeth ar ddata y darparwyr a diffyg trefniadau i groes-wirio'r manylion i WCCIS.

Nodwyd bod nifer o elfennau wedi cyfrannu at y gorwariant ar ofal cartref preifat ac fe fynegodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ei awydd i gael sicrwydd bod y materion adnabuwyd yn yr adroddiad yn cael sylw priodol ac amserol trwy weithrediad rhaglen waith y Grŵp prosiect Gofal Cartref.

**Rhaglen waith i ymateb i ganfyddiadau adroddiad Archwilio Mewnol**

Sefydlwyd Grŵp Prosiect Gofal Cartref yn ôl yn mis Mawrth 2024. Mae'r Grŵp dan arweiniad Pennaeth yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn cyfarfod o leiaf pob bythefnos, wedi sefydlu rhaglen waith wedi ei blaenoriaethu i gryfhau'r ddarpariaeth ac i wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd trefniadau'r Cyngor yn y maes gofal cartref.

Mae'n bwysig nodi bod y Grŵp yn rhoi sylw i sut mae timau gwaith cymdeithasol yn ymdrin a darparu gofal cartref a'r trefniadau ar gyfer darparu gofal cartref mewnol yn ogystal a'r gwaith o gomisiynu a rheoli darpariaeth gofal preswyl preifat oedd yn destun yr archwiliad arbennig gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol. Mae rhaglen waith y Grŵp yn adlewyrchu hyn.

O ganlyniad, mae'n debygol iawn y byddwn yn adrodd i'r pwyllgor hwn ac i'r Pwyllgor Craffu Gofal bod rhaglen waith y Grŵp Gofal Cartref hefyd yn gwneud cyfraniad allweddol i ymateb yr Adran a'r Cyngor i faterion sydd yn debygol o godi yn adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygaeth Gofal Cymru pan gyflwynir hwy yn ffurfiol i ni yn

yr wythnosau nesaf. Mae'r adroddiadau yma yn deillio o archwiliad ar y cyd o wasanaethau oedolion yng Ngwynedd a gynhaliwyd ym Mis Hydref 2024.

**Dadansoddiad lefel uchel o raglen waith y Grŵp Prosiect Gofal Cartref**


Mae i'r Rhaglen Waith Gofal Cartref wedi ei rhannu'n 3 prif 'ffrwd', gyda chyfanswm o 63 o is-brosiectau:

| Ffrwd gwaith | Nifer gweithgaredd | Arweinydd |
|---|---|---|
| Systemau a phrosesau | 22 | Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Busnes |
| Darparu gofal cartref mewnol | 15 | Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Darparu |
| Gwreiddio'r ffordd newydd o weithio | 26 | Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Pobl Hyn |

Mae 48 o'r is-brosiectau yn ymwneud â'r meysydd blaenoriaeth canlynol:-

- Rhestr aros
- Gwariant/Cyllido
- Monitro contractau

Gweler dyraniad yr is-brosiectau ymhob ffrwd sy'n dylanwadu ar y 3 maes uchod yn y graff isod.



Mae dyraniad pellach yn dangos niferoedd yr is-brosiectau ymhob ffrwd sy'n ymateb i'r meysydd gwaith i'w weld yn Atodiad 1.

Wrth ystyried y ffrydiau gwaith yma dylid cadw mewn cof:-

- Bod y system ar gyfer comisiynu a darparu gofal cartref yn eang a chymhleth.
- Bod ambell 'weithgaredd' yn sylweddol ac yn brosiect yn ei hun.
- Bod yna ddibyniaethau rhwng llawer o'r gweithgareddau. Er enghraifft, ni ellir dechrau ar rai neu eu cwblhau hyd nes y bydd gweithgaredd arall wedi cyrraedd carreg filltir benodol neu wedi ei gwblhau.
- Mae'r holl weithgareddau wedi eu blaenoriaethu fel 'Uchel', 'Canolig' neu 'Isel'.

Bydd enghreifftiau a mwy o fanylder am is-brosiectau sydd yn rhaglen waith y Grŵp Prosiect Gofal Cartref yn cael ei cyflwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor.

Mae'r Grŵp yn cyfarfod o leiaf pob bythefnos i fonitro cynnydd ar y cynlluniau sydd ar waith ac i drafod gwaredu rhwystrau i'w cyflawni. Mae penderfyniadau y Grŵp yn cael eu cofnodi ac mae'r grŵp yn cynnal log risg llawn sy'n cael ei monitro'n rheolaidd.

Mae'r Arweinydd Tîm o'r Adran Cyllid sydd yn cefnogi'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn aelod o'r Grŵp ac mae gwahoddiad agored i gynrychiolaeth o'r Gwasanaeth Archwilio mewnol i fynychu.

Mae canfyddiadau yr Adroddiad Arbennig Archwilio Mewnol yn ymwneud a materion adnabuwyd sydd angen sylw o ran trefniadau cadarn, effeithiol ac amserol ar gyfer prosesau gweithredu, rheolaeth gyllidebol, rheolaeth contractau, monitro, asesu risgiau, defnyddio data ac adrodd ar gynnydd. Mae gwaith y Grŵp Prosiect yn eang a'r dibyniaethau rhwng gweithredoedd y ffrydiau yn helaeth. Fodd bynnag, mae'r materion godwyd yn yr adroddiad archwilio yn cael sylw yn ffrwd gwaith Systemau a Phrosesau y rhaglen waith yn bennaf.

**Ymateb y Prif Weithredwr**

*"Comisiynwyd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol i gynnal yr archwiliad arbennig i drefniadau comisiynu gofal cartref preifat gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant. Bu i'r archwiliad amlygu nifer o wendidau yng ngweithrediad y trefniadau.*

*Bu i'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ymateb i ganfyddiadau dechreuol yr Uned Cyllid trwy ail strwythuro trefniadau llywodraethu gwaith gofal cartref yn yr Adran. Sefydlwyd Grŵp Prosiect dan arweiniad Pennaeth yr Adran ac mae rhaglen waith fanwl wedi ei llunio. Mae'r rhaglen yn cwmpasu'r ddarpariaeth gofal cartref gyfan. Mae'n rhoi sylw i'r materion gofal cartref preifat sydd wedi eu hamlygu yn yr adroddiad archwilio mewnol a materion yn ymwneud a'r ddarpariaeth gofal cartref ehangach sydd wedi eu hadnabod gan yr Adran. Mae'r rhaglen hefyd yn debygol o fod yn ymateb i rhai o ganfyddiadau ac argymhellion tebygol adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygaeth Gofal Cymru fydd yn cael eu cyhoeddi'n fuan.*

*Tra bod y model gofal cartref sydd wedi ei fabwysiadu yng Ngwynedd yn cyd-fynd a'r amcanion cenedlaethol i gael trefniadau sydd yn rhoi ein trigolion yn ganolog ac yn gwella ein gwasanaethau yn lleol a chyfrannu at leihau rhestrau aros, rhaid hefyd cydnabod bod*

*trefniadau ar gyfer elfennau o'i gweithredu wedi bod yn wan. Mae'r adroddiad Archwilio Mewnol wedi amlygu hynny.*

*Mae rhaglen waith eang a chynhwysfawr bellach yn ei lle ac rwyf i a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gofal yn fodlon ei bod yn gosod sail ar gyfer gwneud trefniadau ar gyfer comisiynu a monitro darpariaeth gofal cartref preifat yn fwy effeithiol a chadarn. Mae camau cadarnhaol eisoes wedi eu cyflawni ond mae llawer eto i'w wneud. Mae natur y galw a darparu gwasanaethau gofal cartref dydd i ddydd yn golygu bod cael system cwbl effeithlon yn hynod anodd. Ond mae'n rhaid anelu am hynny.*

*Gallaf sicrhau aelodau'r Pwyllgor y bydd y Cyfarwyddwr a minnau yn gweithio'n agos gyda'r aelodau cabinet perthnasol i gefnogi'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant i weithredu'r rhaglen waith yn llawn. Gobeithio y byddwn yn gweld ffrwyth cynyddol y gwaith yn amlwg trwy drefniadau llywodraethu'r Prosiect Gofal Cartref a trwy'r trefniadau herio perfformiad arferol dros y misoedd nesaf."*

**Atodiad 1 –** Graff yn dangos dyraniad yr is-brosiectau.

**Dogfennau cefndirol**

Gwasanaethau Gofal Cartref - Adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Gofal – 26ain Medi 2024